CWIS
Y BYD O'N CWMPAS

Penderfynwch pa un o'r tri dewis posibl i bob datganiad sydd yn gywir.
Os ydych yn gweithio ar gopi papur, neu o'r cyfrifiadur cliciwch y blwch i ateb.

1 Mae glaswellt y lawnt yn tyfu'n gyflym

- ☐ rhwng Hydref a Rhagfyr
- ☐ rhwng Chwefror a Mawrth
- ☐ rhwng Mai a Gorffennaf

2 Mae gwartheg yn cael eu godro

- ☐ ddwywaith y dydd
- ☐ ddwywaith yr wythnos
- ☐ ddwywaith y mis

---

3 Yn aml daw mellt a tharanau ar ôl

- ☐ gwynt mawr a glaw yn y gwanwyn
- ☐ tywydd poeth a thrymaidd yn yr haf
- ☐ rhew ac eira yn y gaeaf

4 Rhai o flodau cyntaf y gwanwyn yw

- ☐ clychau'r gog
- ☐ rhosod
- ☐ eirlysiau

---

5 Bydd gwyddau gwyllt ion yn dod yma i fwydo dros y gaeaf

- ☐ o Affrica
- ☐ o'r Arctig
- ☐ o'r Antarctig

6 Yn y gaeaf mae'r nos yn

- ☐ fyr a thywyll
- ☐ hir a golau
- ☐ hir a thywyll

---

7 Mae'r dail yn dechrau newid lliw pan mae hi'n amser

- ☐ siopa at y Nadolig
- ☐ dechrau blwyddyn ysgol newydd
- ☐ prynu wyau Pasg

8 Cafodd clychau'r gog eu henw am

- ☐ eu bod yn blodeuo pan fydd y gwcw yn canu
- ☐ fod y gwcw yn bwydo arnynt
- ☐ eu bod yr un lliw â'r gog

---

9 Byddwn yn gweld adar â llond eu pig o ddeunydd nythu

- ☐ tua Dydd Gwyl Ddewi
- ☐ tua Noson Tân Gwyllt
- ☐ tua Dydd Calan

10 Ym mis Mehefin, mae'r wawr yn torri

- ☐ tua saith o'r gloch y bore
- ☐ tua pedwar o'r gloch y bore
- ☐ tua naw o'r gloch y bore